
# Ar lan y môr



Tric a Chlic



Roedd hi'n ddiwrnod braf
ar lan y môr.





Disgleiriodd yr haul yn yr
awyr.
"O, mae'n ddiwrnod heulog!"
dywedodd yr haul.



Plymiodd y morlo yn y dŵr.
"O. mae plymio'n grêt!"
dywedodd y morlo.





Cuddiodd y cranc yn y
tywod.
"O. mae cuddio'n hwyl!"
dywedodd y cranc.



Gorweddodd y seren fôr ar y graig.
"O, mae gorwedd yma'n braf yn yr haf!" dywedodd y seren fôr.





Nofiodd y pysgodyn yn y môr.
"O, mae nofio'n sbri!" dywedodd y pysgodyn.



Gorffwysodd y cregyn yn y dŵr cynnes.
"O, mae gorffwys yma'n bleserus," dywedodd y cregyn.





"Ond, beth amdana' i?" gofynnodd yr wylan.





"Mae'n rhy boeth i
hedfan fry.

Mae'n rhy boeth i gael
hwyl a sbri felly ...

af yn ôl i'r nyth."

